

Rehoboth

Cynhelir yr oedfa ddydd Sul nesaf yn y capel. Buom yn trafod dyfodol yr eglwys ers misoedd wrth i ni gyfarfod yn fisol ar bnawn Sul, ac mae'r criw bach sydd yno wedi penderfynu gofyn i'r aelodau y Sul nesaf bleidleisio dros gau'r capel a dod ag eglwys Rehoboth i ben. Gwyddom fod hwn yn benderfyniad mawr, ond ni welwn fod dewis arall yn bosibl gwaetha'r modd.

Apêl Madagascar

Yn ystod Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Salem Caernarfon nos Fercher ddiwethaf, cyflwynwyd rhodd ar ran y Cyfundeb i'r Parchg Ddr Geraint Tudur ar ei ymdeoliad fel Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Rhoddyd sylw hefyd i Apêl yr Undeb am y flwyddyn nesaf a fydd yn cefnogi eglwysi ym Madagascar. Mae pedwar prosiect arbennig o eiddo'r eglwysi'n cael eu helpu trwy'r Apêl hon.

Mae pob eglwys Annibynnol yn cael ei gwahodd i gefnogi'r Apêl. Cewch wybod am y gwahanol brosiectau yn *Gronyn* dros yr wythnosau nesaf.

Pwyllgor Carmel

Cynhaliwyd Pwyllgor Adeiladau Carmel Llanllechid nos Lun diwethaf.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Tachwedd 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Sul y Cofio

Bydd gwasanaeth Sul y Cofio Deiniolen wrth y gofeb am 9.15 o'r gloch fore Sul nesaf, Tachwedd 11.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Tachwedd 4: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch yn **Ebeneser** gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Tachwedd 4: Gwasanaethir yn yr oedfa am 10.00 o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith. Ni fydd Ysgol Sul.

CARMEL

Dydd Llun, Hydref 29: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 2: DwyloPrysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 4: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Tachwedd 2: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 4: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gerallt Lloyd Evans.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 4: Oedfa yn y capel am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 4

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

Tachwedd 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 772
28 Hydref, 2018
Gronyn

Amser



Feddylioch chi erioed gymaint y gellir ei wneud ag amser? Ymysg pethau eraill, gellir ei achub, ei basio, ei brynu, ei dreulio, ei ddifyrru, ei gael, ei gollu, ei guro, ei gymryd, ei hela, ei ladd, ei lunio, ei oedi, ei osod a'i wastraffu. Mae Geiriadur y Brifysgol yn rhestru'r rhan fwyaf o'r geiriau hyn dan y gair 'amser'. Fe soniwn hefyd am 'ennill amser' er nad yw'r Geiriadur, hyd y gwelaf, yn cynnwys yr ymadrodd hwnnw. Byddai rhai'n dweud ein bod wedi ennill amser heddiw wrth i ni droi'r clod awr yn ôl. Ond go brin y medrwn honni i ni wneud hynny mewn gwirionedd a ninnau'n colli awr yn y gwanwyn wrth droi'r cloc ymlaen.

Beth bynnag arall y medrwn ei wneud ag amser, yr un peth sy'n sicr yw na fedrwn ei gael yn ôl. Weithiau, mae hynny'n gysur gan fod yna bethau a phrofiadau na fyddem am eu hail fyw. Mae yna bethau yr ydym yn falch o gael eu cefn, a phrofiadau na fyddem yn dymuno eu hwynebu eto. Bu cryn drafod yn ddiweddar wedi i Theresa May honni bod dyddiau 'llymder' wedi dod i ben. Nid oes arwyddion amlwg fod hynny'n wir, ond byddai'n dda gan filoedd lawer o bobl gredu ei fod. Does neb a ddiodeffodd yn sgil polisi llymder y Llywodraeth yn dymuno ail fyw'r blynyddoedd caled diweddar.

Ond y mae hefyd bethau a phrofiadau eraill y byddem wrth ein bodd yn eu cael yn ôl. Gwyn ein byd os dyna yw ein profiad. Fe wyddom wrth gwrs na fedrwn gael hyd yn oed un diwrnod yn

ôl; ac eto gwyn ein byd os yw bywyd wedi bod mor felys fel y byddem am ail fyw'r cyfan pe byddai modd. Er gwybod na chawn na diwrnod nac awr na munud yn ôl, does dim i'n rhwystro rhag breuddwydio am hynny wrth i ni drysori ein gwahanol atgofion.

Mae'r sylweddoliad na allwn ail fyw'r profiadau ac ail gerdded llwybrau ein bywydau yn ein hatgoffa mai rhodd werthfawr i'w thrysori yw amser. Rhywbeth i wneud yn fawr ohono, ac nid i'w afradu, yw amser. Y mae pob eiliad i'w gwerthfawrogi, a phob dydd yn destun diolch i Dduw am ei roi i ni. Gweddïwn am ras i fwynhau pob dydd a'i fendithion. Gweddïwn hefyd am nerth bob dydd i wneud y cyfan y mae Duw yn ei ofyn gennym.

Nid oes dim newydd yn yr erthygl hon heddiw gan i mi ddweud pethau digon tebyg fwy nag unwaith adeg 'troi'r cloc'. Ond o ddarllen rhai o'r hen erthyglau hynny'r wythnos ddiwethaf, roedd rhaid i mi gyfaddef i mi yn rhy aml fethu â dilyn fy nghyngor fy hun. Gwn i mi wastraffu gormod o lawer o amser; gwn na wnes i'r defnydd gorau o bob awr, ac i mi drwy hynny fethu â phrynu'r amser fel y dylwn. Gwn na wnes y gorau o bob munud a roddodd Duw i mi. Mae'r cyfan yn ofid i mi. Ond diolch byth fod y Duw Byw a roddodd i ni amser hefyd yn rhoi trwy Iesu Grist faddeuant am bob methiant i'w dreulio'n iawn. Heb sicrwydd o'r maddeuant hwnnw, mae'n beryg y byddai'r euogrwydd yn llethol.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Bydd sacrament y bedydd yn cael ei weinyddu yn yr Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda, un ai yn yr ysbyty neu gartref. Gobeithio eich bod yn profi nerth yn ôl angen y dydd. Gweddiwn dros ein gilydd, i ni wybod am gymorth a chynhaliadaeth yr Arglwydd, beth bynnag ein hamgylchiadau heddiw.

Balm o Salm



'Molwch yr ARGLWYDD.
Diolchwch i'r ARGLWYDD, **BYW Y BEIBL**
oherwydd da yw, ac y mae
ei gariad hyd byth. Pwy all draethu
gweithredoedd nerthol yr ARGLWYDD,
neu gyhoeddi ei holl foliant? Gwyn eu
byd y rhai sy'n cadw barn, ac yn
gwneud cyfiawnder bob amser.

'Gwareda ni, O ARGLWYDD ein Duw,
a chynnull ni o blith y cenhedloedd, inni
gael rhoi diolch i'th enw sanctaidd, ac
ymhfyrydu yn dy fawl.

'Bendigedig fyddo'r ARGLWYDD,
Duw Israel, o dragwyddoldeb hyd drag-
wyddoldeb; dywedwch yr holl bobl,
"Amen". Molwch yr ARGLWYDD'
(Salm 106:1-3; 47-48).

Cartref newydd eglwysi Deiniolen

Cynhaliwyd ein hoedfa yn Neiniolen y
Sul diwethaf yn Nhy Elidir. Ar ddiwedd
yr oedfa penderfynwyd, fel cynulleidfa
unedig Ebeneser a Cefnywaun, ein bod
yn cynnal ein hoedfaon yn y fan honno
o'r ail Sul ym mis Tachwedd ymlaen, sef
Tachwedd 11.

Y dyddiad a osodwyd ar gyfer cwblhau
gwerthu safle Ebeneser yw Tachwedd 8.

Gobeithiwn y byddwn wedi cwblhau'r
drafodaeth â Menter Fachwen ynghylch
defnyddio Ty Elidir erbyn y dyddiad
hwnnw hefyd.

Bedydd

Estynnwn groeso cynnes i Aled a Ffion
Wyn Hughes a'u teulu i'r oedfa yn Capel
Coch heddiw. Byddant yn cyflwyno eu
mab bach Dyfan i'w fedyddio. Boed i
Dduw fendithio'r oedfa a'r teulu.

Croesawu'r Ysgol i'r Capel

Ddydd Llun diwethaf, Hydref 22, cafwyd
cwmni plant Ysgol Dolbadarn yng
Nghapel Coch trwy'r dydd. Trefnwyd y
diwrnod er mwyn i blant yr Ysgol gael
dysgu am yr Wyl Ddiolchgarwch a bod
yn rhan o wasanaeth Diolchgarwch dan
arweiniad Susan Williams a'r Gweinidog
yn y capel.

Daeth plant Blwyddyn 1 a 2 i ddechrau a
chawsant wasanaeth Diolchgarwch. Yna
daeth plant Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn eu
tro am ryw dri chwarter i gael hanes y
Diolchgarwch ac i wneud cardiau cyfarch
ar gyfer yr wyl. Daeth y pedwar dosbarth
hynaf yn ôl ddiwedd y dydd, a chawsom
wasanaeth Diolchgarwch efo nhw.
Roedd y plant wedi dod â bwydydd ar
gyfer Banc Bwyd Arfon, a daeth Lowri
Jones atom i ddiolch am y rhoddion hyn
ar ran trefnwyr y Banc Bwyd.

Roedd yn ddiwrnod braf iawn, ac roedd
yn amlwg mai dyma'r tro cyntaf i rai o'r
plant fod yn Capel Coch neu unrhyw
gapel neu eglwys arall o ran hynny. Yr
ydym yn diolch i'r Ysgol am gyfle i
groesawu'r plant a'u hathrawon atom.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Cathryn Wyn
James yn Capel Coch a'r Amlogsgfa ym
Mangor ddydd Mercher, Hydref 24 dan
arweiniad y Gweinidog. Bethan Holding
oedd yr organydd yn y capel.

Bu farw Mrs James yn Ysbyty Gwynedd
ar Hydref 13, yn 91 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn â Mair, Gwen ac Aled
a'u teuluoedd yn eu colled. Cafodd Mrs
James ei magu yn Llanberis, yn Nhyddyn
Siarles. Wedi graddio yn y Brifysgol ym
Mangor a chymhwyso yn athrawes, aeth i
ddysgu yng Nghanolbarth Lloegr cyn
priodi â Geraint Jamees a dychwelyd i

Gymru, i Gynwyd ac yna'r Bala cyn dod
ôl i'w chartref yn Llanberis. Symudodd
hi a'i phriod a'r plant i Borthaethwy ac
yna i Dregarth. Roedd Mr a Mrs James
wedi penderfynu dychwelyd i Lanberis,
ond erbyn iddi ddod nôl yr eilwaith i'w
phentref genedigol fe'i gadawyd yn
weddw. Ymgartrefodd yn dda yn ei hen
gynefin a daeth yn aelod ffyddlon yn
Capel Coch, a bu'n hael ei chefnogaeth i
holl weithgaredd yr eglwys a Chynllun
Efe.

Yr oedd yn wraig ddysgedig a doeth; yr
oedd yn ddiwylliedig a deallus; yr oedd
yn annwyl a chroesawgar. Am ran hel-
aeth o'i hoes, bu'n fawr ei gofal am ei
theulu, ei phlant a'i hwyrion a'i phriod, a
hefyd fwy nag un o aelodau hyn y teulu
ar wahanol gyfnodau.

Bocsus esgidiau Teams 4 U

Bydd cyfle eleni eto i anfon anrhegion
Nadolig mewn bocs esgidiau i blant
mewn gwledydd tramor. Eleni, bydd y
bocsus yn cael eu hanfon at blant a phobl
ifanc a theuluoedd yn Romania, Belarws,
Bosnia a'r Wcrain.

Mae taflenni ar gael sy'n egluro beth ellir
ei roi yn y bocs ac ar gyfer pa oedran.
Cofiwch fod modd gwneud bocs ar gyfer
teulu yn hytrach na phlentyn unigol.
Mae'r manylion yn y taflenni.

Bydd angen i'r cwbl fod yn barod erbyn
nos Sul, Tachwedd 18, mewn pryd i'w
danfon i Gyffordd Llandudno yr wythnos
honno. Am ragor o fanylion, cysylltwch
â'r Gweinidog.

Banc Bwyd

Anfonwyd y bwydydd a dderbyniwyd yn
Neiniolen a Llanberis ar gyfer y Banc
Bwyd i Gaernarfon ddechrau'r wythnos
ddiwethaf. Mae trefnwyr y Banc Bwyd
yn diolch am eich haelioni.